
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@llwybrarfordircymru
llwybrarfordircymru.gov.uk




# Taith gerdded gylchol Mwnt, Ceredigion

## Bywyd gwyllt morol, golygfeydd godidog o'r môr a man tawel i bererinion.

*"Cofiwch eich camera ar gyfer y daith gerdded gylchol hon, sydd â golygfeydd ysblennydd. Mae'n un o'r lleoedd mwyaf eiconig ar yr arfordir ac yn lle perffaith i wylio'r haul yn machlud."*

**NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a gorffen:
Maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Mwnt.

### Pellter:
Taith gerdded gylchol 1.5 milltir neu 2.5 km.




Eglwys y Grog, Mwnt




Yr olygfa o Foel y Mwnt

## Ar hyd y ffordd...

Ar ôl ymweld ag Eglwys y Grog mae'r daith gerdded gylchol fer hon yn mynd â chi ar hyd rhan ysblennydd o Lwybr Arfordir Cymru.

Gan adael y maes parcio, ewch i gaffi'r traeth, lle ceir toiledau (tymhorol). Cerddwch dros bont gerrig a dilynwch arwydd llwybr yr arfordir heibio hen odyn galch wrth i chi fynd i ben y clogwyn gyda golygfeydd ysblennydd i bob cyfeiriad.

Edrychwch i'r gogledd ar draws Bae Ceredigion ac fe welwch fraich hir Pen Llŷn yn ymestyn allan i'r môr, tra bod twmpath glaswelltog Foel y Mwnt a'r cildraeth a'r traeth ysblennydd yn gorwedd y tu ôl i chi. O'ch blaen mae Ynys Aberteifi a enwyd yn wreiddiol yn Hastiholm (Ynys y Ceffylau) a fu unwaith yn gartref i balod a oedd yn nythu yma cyn iddynt gael eu gyrru i ffwrdd gan lygod mawr.

Ewch ymlaen ar hyd llwybr yr arfordir, gan gadw llygad am frain coesgoch yn hedfan trwy'r awyr uwchben a morloi a dolffiniaid yn chwarae yn y tonnau islaw, cyn troi tuag at y tir a cherdded trwy'r caeau yn ôl i'ch man cychwyn.

## Man Treftadaeth Gysegredig:

Mae Eglwys y Grog Mwnt wedi bod yn gyrchfan i bererinion ers canrifoedd ac mae'n parhau i fod â thynfa bwerus hyd heddiw. Yn eistedd uwchben crug o'r Oes Efydd yn edrych dros Draeth Mwnt a Môr Iwerddon, dechreuodd yr adeilad carreg gwyngalchog ei fywyd fel capel anwes i forwyr.

Daw'r enw o'r groes garreg dal a arferai sefyll ar Foel y Mwnt gerllaw, a wasanaethai fel begwn i addolwyr a deithiai o bell ac agos i ymweld â'r eglwys fach dlos hon.

Yn y canol oesoedd, byddai cyrff seintiau yn aml yn oedi yma ar eu ffordd i'w claddu ar Ynys Enlli. Roedd hefyd yn gyrchfan poblogaidd i bererinion a oedd yn teithio i Dyddewi yn Sir Benfro, ar ôl i'r Pab Calixtus II ddatgan ym 1123 bod dwy daith yno yn hafal i un i Rufain, tra bod tair yn werth pererindod i Jerwsalem.

Yn ychwanegol at ei lleoliad prydferth, mae'n llawn nodweddion hanesyddol anarferol, gan gynnwys to derw prin o'r bymthegfed ganrif a bedyddfaen wedi'i gerfio o gerrig Preseli o'r ddeuddegfed ganrif.

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Mae yna lefydd parcio ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, tra gellir cyrraedd Mwnt drwy drafnidiaeth gyhoeddus ar fws tymhorol Cardi Bach 552.

Mae yna hefyd doiledau cyhoeddus tymhorol a chiosg yn gwerthu diodydd a byrbrydau.

Datblygwyd y daith gerdded hon mewn partneriaeth â'r **Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol**. Ewch i'w gwefan **www.explorechurches.org/cymru** i ddarganfod mwy gan gynnwys teithiau a phrofiadau y gellir eu harchebu.